

Julie James AC/AM
Y Gweinidog Tai a Llywodraeth Leol
Minister for Housing and Local Government



Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Ein cyf/Our ref JJ/06705/19

Janet Finch-Saunders AC
Cadeirydd, y Pwyllgor Deisebau
Cynulliad Cenedlaethol Cymru
Tŷ Hywel
Bae Caerdydd
Caerdydd
CF99 1NA

11 Tachwedd 2019

Annwyl Janet,

Diolch ichi am eich llythyr dyddiedig 14 Hydref yn gofyn am fwy o wybodaeth am fy marn i ar y cynnig y dylai aelodau o'r cyhoedd a'r wasg gael yr hawl i recordio cyfarfodydd y cyngor ac adrodd arnynt - mewn perthynas â chyfarfodydd cyngorau cymuned a thref.

Yn yr un modd â chyfarfodydd awdurdodau lleol, rhaid i gyfarfodydd cyngorau cymuned a thref fod yn agored i'r cyhoedd; mae gan y wasg a'r cyhoedd hawl i weld sut mae cyngorau cymuned yn gweithredu, oni bai eu bod yn trafod materion sensitif, megis materion cyfreithiol, cytundebol neu bersonél. Gall y cyngor gytuno i wahardd y wasg a'r cyhoedd o gyfarfodydd pan fydd yn trafod yr eitemau hynny'n unig. Yn yr un modd, mater i bob cyngor cymuned neu dref yw pennu'r trefniadau manwl ar gyfer y cyfarfodydd hynny.

Caiff cyngorau eu hannog i bennu'r fformat ar gyfer cyfranogiad y cyhoedd yn eu rheolau sefydlog, ond mater i bob cyngor, yn ôl ei ddisgresiwn, yw penderfynu ar fanylion trefniadau o'r fath, ac mae'n bosibl y byddai angen ystyried unrhyw faterion diogelu data neu faterion diogelwch eraill a allai godi o ganlyniad.

Gan fod y ddeiseb bellach wedi cau, edrychaf ymlaen at glywed mwy am y gefnogaeth gyffredinol a gafodd.

Yn gywir,

Julie James AC/AM
Y Gweinidog Tai a Llywodraeth Leol
Minister for Housing and Local Government

Canolfan Cyswllt Cyntaf / First Point of Contact Centre:
0300 0604400

Gohebiaeth.Julie.James@llyw.cymru
Correspondence.Julie.James@gov.Wales

Bae Caerdydd • Cardiff Bay
Caerdydd • Cardiff
CF99 1NA

Rydym yn croesawu derbyn gohebiaeth yn Gymraeg. Byddwn yn ateb gohebiaeth a dderbynnir yn Gymraeg yn Gymraeg ac ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi.

We welcome receiving correspondence in Welsh. Any correspondence received in Welsh will be answered in Welsh and corresponding in Welsh will not lead to a delay in responding.